

## Trawsgrifiad o bodlediad: Cyfres 1-Pa Opsiwn i Ti? Pennod 4- Pwysu a mesur ar ôl derbyn canlyniadau

Cyf: Croeso I 'Pa Opsiwn I Ti', a'r gwir yw gyda'r canlyniadau TGAU wedi'u cyhoeddi, does dim yn awr i atal miloedd o bobl ifanc trwy Gymru rhag penderfynu o ddirif pa opsiynau sydd ar gael ac sy'n addas iddyn nhw. Llongyfarchiadau i bawb sy'n ymfalchïo yn eu canlyniadau, a hei lwc i bawb sy'n ystyried rhoi cynnig arall ar ambell bwnc pan ddaw cyfle i ailsefyll nes ymlaen yn y flwyddyn. I'r rhai sy'n aros am ganlyniadau BTEC gan gwmni Pearson, wel, mae'r aros yn parhau ar ôl cyhoeddiad ar yr unfed awr ar ddeg fod y cwmni sy'n gyfrifol am y graddau am edrych unwaith eto ar bethau, er mwyn sicrhau tegwch i bawb. Os bu stori sy'n bennawd newydd bob dydd, wel dyna stori canlyniadau 2020.

Nawr, yn y bennod ddiwethaf fe glywsom ni gan Twm, disgybl Blwyddyn 11 a oedd, fel amryw o un pen i Gymru i'r llall, wedi cael amser digon gofidus yr haf yma. Ar ôl gweld newid polisi ar roi graddau Safon Uwch, roedd rhaid aros i weld beth oedd y bwriad o ran graddau TGAU, ac yna aros i weld sut roedd yr athrawon wedi pwysu a mesur pethau ar sail gwaith dosbarth, profion, ac arholiadau'r llynedd.

Mynd yn ôl i'r chweched dosbarth i astudio gwyddoniaeth oedd nod Twm, a chyda 4 A\*, 5 A, ac 1 B, dw i'n siŵr bydd y drws yn agored i Twm wneud hynny yn union. Ac nid fi yn unig sy'n llongyfarch Twm yn gynnes iawn, yr un yw neges Aled Roberts, ymgynghorydd gyrfa gyda Gyrfa Cymru, a'r sawl sydd wedi'n tywys ni trwy'r cyfnod rhyfedd iawn yma.

Aled: Llongyfarchiadau mawr i Twm, a gobeithio yn awr ei fod e, trwy sicrhau'r graddau yna, yn gallu parhau gyda'r llwybr y mae wedi bwriadu mynd arno. Os oedd yn edrych ar y gwyddorau, a symud ymlaen, dyna'r union raddau y bydd, yn y dyfodol, prifysgolion yn chwilio amdanyn nhw. Felly, o ran Twm, mae wedi bwrw'r nod, a'r mater nawr yw ei fod yn mynd ymlaen i'r chweched. Dw i'n sicr ei fod wedi siarad â'r chweched, yn gwybod yn union beth yw cynnwys y pynciau y mae am ddewis, ac yna dwy flynedd yn y chweched, a gobeithio wedyn, yn ystod blwyddyn 12, y bydd yn dechrau chwilio am y cam nesaf - pa gwrs prifysgol, pa lefel? Efallai ei fod yn edrych... gyda'r math yna o ganlyniadau, bydden i'n awgrymu ei fod yn edrych ar brifysgolion y Russell Group, sydd â gofynion mynediad eithaf uchel, fel arfer dwy neu dair A a B. Felly, mae Twm mewn safle cryf iawn wrth gyrraedd diwedd Blwyddyn 11. Llongyfarchiadau mawr i ti.

Cyf: Ie, yn bendant, llongyfarchiadau. A gobeithio ei fod o'n rhywle yn dathlu, achos mae'n haeddu gwneud hynny.

Aled, mae hi wedi bod yn gyfnod od. Mae'n amhosibl ag anwybyddu'r cyd-destun gyda'r canlyniadau yma heddiw. Pa fath o sgysiau ydych chi wedi bod yn eu cael wrth eich gwaith o gynghori a sgwrsio gyda phobl ifanc sydd wedi bod yn casglu eu canlyniadau?

Aled: Wel, y sgysiau dw i wedi'u cael.. yn gyntaf, roedd hi'n braf mynd i mewn i'r ysgol a gweld athrawon yn gwenu. Rwy'n gwybod eu bod nhw wedi bod o dan y lach, a dan lot o bwysau, felly roedd hi'n braf gweld hynny. O ran y disgyblion, mae'r mwyafrif wedi cael beth oedden nhw'n ei ddisgwyl, mae'r mwyafrif a oedd yn gobeithio dod yn ôl i'r chweched wedi taro'r nod, ac wedi bwrw'r 5 C oedd angen i ddod yn ôl i'r chweched. Un neu ddau wedi syrthio'n fyr, a dyna'r rhai dw i wedi bod yn trafod gyda nhw bore 'ma, dim ond i wneud yn siŵr nawr fod [ganddyn nhw] opsiwn wrth gefn.

Felly, dros y flwyddyn, pan o'n i'n cyfarfod â nhw, ro'n i'n gwybod: 'Reit, efallai bydden nhw'n cael y 5 C, falle bydde nhw ddim'. Mae yna rai heb [lwyddo]. Felly, rydym ni'n sicrhau bod yr opsiwn wrth gefn yna yn awr, [ei fod] yn dod mewn i'r gêm, achos gyda'r rheini, yr opsiwn wrth gefn oedd edrych ar y coleg, a hyd y gwn i maen nhw i gyd wedi bwrw'r nod i fynd mewn i goleg addysg bellach. Felly, dyna beth fydda nhw'n ei wneud. Mae 'na un neu ddau arall oedd yn edrych ar yr opsiwn coleg, ond sydd, efallai, ddim wedi cael y graddau oedd eu hangen gyda Maths a Saesneg. Gyda nhw rydym ni wedi bod yn edrych ar opsiynau eraill. Ac efallai hwyrach yn ystod y sgwrs yma cawn siarad ychydig bach ynglŷn â pheth o'r rheiny. Ond yn gyffredinol: gwenu, a mwy o hapusrwydd yn bendant nag oedd ar ddiwrnod canlyniadau Lefel A.

Cyf: A beth am BTEC? Gadewch i ni ofyn yn syth, achos hyd yn oed ar ôl i bethau ddod yn glir gyda'r TGAU mai'r *Centre Assesed Grades* yma fyddai [yn cael eu defnyddio] - sef beth oedd yr athrawon yn credu oedd yn realistig - roedd yna newid munud olaf eto gyda BTEC. Felly, ble mae myfyrwyr BTEC arni?

Aled: Ar hyn o bryd, wrth i ni siarad ar hyn o bryd, 'dy ni ddim yn gwybod. Maen nhw'n aros i gael cadarnhad oddi wrth y lle y gwnaethon nhw wneud y BTEC. Felly, ar hyn o bryd, maen nhw dal yn hongian ymlaen - ddim cweit yn siŵr. Mae ychydig ohonyn nhw yn gwybod eu bod nhw wedi pasio, yn gwybod eu bod nhw wedi gwneud yn dda, ond efallai bod un neu ddau bach arall ddim cweit yn sicr. Felly, ar hyn o bryd, mae pethau jyst yn cael eu dal.

Mi fyddan nhw yn siarad gyda'r colegau, mae'r colegau'n ymwybodol o hyn, felly rwy'n gobeithio y gwnaiff y colegau ddal ymlaen. 'Dy ni ddim yn siŵr pa bryd bydd y canlyniadau yma yn cael eu rhyddhau, ond eto, mae pobl yn ymwybodol fod yna ychydig bach o aros yn mynd i fod. Felly, yn arbennig achos eu bod nhw'n gyrsiau galwedigaethol gyda modiwlau, mae'r rhan fwyaf o'r myfyrwyr yma'n gwybod: 'Reit, dw i wedi pasio'r modiwlau' - mi ddylen nhw fod â rhyw fath o syniad. Yr unig beth, efallai, nad ydyn nhw'n sicr amdano yw pa lefel y maen nhw wedi'i daro gyda'r radd derfynol. Ond eto, fy nghyngor i yw: 'Dy ni'n aros ymlaen, ac maen nhw'n mynd i symud ymlaen gyda'r syniad gwreiddiol oedd ganddyn nhw, coleg fel arfer i'r rhan fwyaf o'r rheiny.

Cyf: Mae'n anodd codi hyn ar un olwg, achos, fel yr oeddech chi'n ei ddweud, roedd hi'n braf gweld athrawon yn gwenu, mi fydd 'na bobl ifanc yn dathlu, ac fe ddylen nhw hefyd, ond mae'n rhaid i mi ddweud: dw i wedi cael sgwrs gyda merch sydd wedi cael A\* [ym mhob un] o'i phynciau, ond dyna'r sgwrs fwyaf fflat rwyf wedi'i chael erioed. Ei theimlad hi oedd ei bod hi ddim yn gwbl siŵr y byddai hi wedi cael ei 11 A\* - mae hi'n galed iawn ar ei hunan - ond ei theimlad hi oedd: Wel, mae nifer fawr o'n ffrindiau i wedi gwneud yn dda, mi fydd 'na fwy o raddau A\* ac A nac erioed o'r blaen, mi fydd y penawdau i gyd yn dweud 'Wel, mae'r bobl ifanc yma wedi bod trwy amser caled iawn, ond ar y diwedd maen nhw wedi ei chael hi'n hawdd gyda'u canlyniadau' - am nad oes neb wedi eu safoni nhw. Felly roedd hi'n gwbl fflat, ac mae'n rhaid cydymdeimlo, on'd oes? Er eich bod chi'n dymuno i rywun sydd wedi cael 11 A\* - ffantastig - fod yn dathlu, gallwch chi ddeall y siom yma oed gyda hi'n amlwg yn ei stumog.

Aled: O bosibl, ie, achos... dim ond o siarad gyda'r rhai'r bore 'ma, ac un neu ddau ohonom yn holi sut mae eu ffrindiau nhw wedi'i wneud, a rhai ohonyn nhw'n dweud 'O, my gosh', o gymharu â nhw, 'nath e gael A yn Maths, yr un fath â fi, doedd neb yn meddwl y bydden nhw'n cael A'. Felly dw i'n medru deall yr ochr yna o bethau, o safbwynt person, efallai, nifer ohonyn nhw yn yr ysgolion sy'n mynd i lwyddo yn ardderchog, a chael A\* ar gyfer pob pwnc. Felly, o bosibl, bydd rhai ohonyn nhw, fel yr wyt ti'n ei ddweud, yn teimlo ychydig bach yn

fflat, ond bydden i'n dweud: Tro'r geiniog drosodd, dyma ble maen nhw wedi'i gyrraedd, dyma beth sydd wedi cael ei roi iddyn nhw, felly maen nhw yn awr, bydden i'n ddweud [wrthynt] i beidio â phryderu am beth mae eu ffrindiau nhw wedi'u wneud, ond i feddwl yn awr: Reit dw i mewn safle cryf, gallaf fynd lawr y trywydd dw i eisiau ei wneud. Ac [iddyn nhw] fynd, cymryd y cam nesa ymlaen, yn hyderus fod y graddau yma gyda nhw.

Yn amlwg, mae'r flwyddyn yma'n mynd i fod... all pobl ddim peidio â dweud 'dyma flwyddyn y Covid'... ond dyma sut maen nhw wedi cael eu gosod, dyma sut mae'r canlyniadau wedi dod allan. Ar ddiwedd y dydd, does fawr ddim mwy y gall unrhyw un ei ddweud wrthyn nhw, dim ond 'Ymfalchïwch eich bod chi eich hun wedi llwyddo, ac wedyn gwnewch chi'n siŵr eich bod chi eich hunain yn mynd i lawr y trywydd yr ydych chi eisiau ei wneud, a falle ddim pryderu gormod am beth mae eich ffrindiau chi, neu ambell un arall wedi'i wneud'.

Cyf: Ie, siŵr byd hynny yn gyngor da iawn, bysen i'n feddwl, ac un cwestiwn arall a oedd yn codi o sawl cyfeiriad oedd: Felly, gan y bydd y canlyniadau, mae'n ymddangos, ricyn yn uwch eleni nag y maen nhw wedi bod, a ydy hynny'n mynd i olygu... falle bod 'na rai sydd ar ffin gyda'r penderfyniad i fynd yn ôl i'r chweched dosbarth, neu ar y ffin o ran penderfynu hefo pwnc penodol, p'un a ydynt eisiau ei wneud ar gyfer safon uwch ai peidio. A oes yna awgrym y byddai'n ddoeth i feddwl o ddifrif ai dyna'r peth i chi ei wneud, felly?

Aled: Yn hollol, yn bendant... beth fydden i'n ei gynghori yw.. bydden i'n trafod yn unigol gyda rhywun, ac yn dweud: 'Reit, dyma ble'r wyt ti, dyma beth fydd cynnwys lefel A, neu gynnwys y cwrs lefel 3'. Mae'n bwysig bod y person yma'n gwybod eu bod nhw'n mynd i allu ymdopi gyda hynny. Os ydyn nhw am ddod yn ôl i'r chweched, eu bod nhw'n dewis [gwneud]... efallai bod un pwnc cryf gyda nhw, ond falle bod y ddau arall ddim cweit mor gryf, ac mae angen, efallai, sgwrs onest gyda nhw, gydag efallai penaethiaid y chweched, efallai gyda'r athro pwnc, jest i ddweud: 'Reit, dyma beth ges i yn TGAU, a ydw i yn mynd i fod yn gallu gwneud hyn yn Lefel A?' Achos yn amlwg, mewn rhai pynciau, wel ym mhob un mewn ffordd, mae yna dipyn o gam lan - cam i fyny o TGAU i Lefel A. Mae'n bwysig felly i gael sgwrs onest gyda'r athro, achos maen nhw adnabod y plant, a bydden nhw'n gallu dweud: 'Reit. Oce. Fe ddyle ti fod yn oce.' Neu bydd rhai ysgolion yn dweud: 'Reit, gadewch i ni gael gweld'. Efallai ei wneud e am ychydig wythnosau, ym mlwyddyn 12... bydd rhai efallai yn dewis pedwar opsiwn, a chan ddibynnu sut mae pethau'n mynd bydden nhw'n dweud: 'Reit, os nad ydy hyn yn gweithio allan, mi fedri fynd yn ôl a gwneud tri [pwnc]'. Mae'r fagloriaeth hefyd ar gael.

Felly, bydden ni'n dweud, sgwrs onest, ond hefyd... o'n safbwynt i fel ymgynghorydd gyrfaoedd, beth fyddwn i'n ei wneud gyda'r person yna yw jyst eistedd i lawr, trafod, pwyso a mesur, gofyn beth yw'r cryfderau, faint maen nhw'n ei ddeall, a ble mae'r pwnc yma'n mynd i ffitio mewn gogyfer y dyfodol? Hynny yw, eu bod nhw ddim jyst yn dewis pwnc am eu bod nhw wedi cael B, ond trwy'r flwyddyn falle nad oedden nhw cweit ar lefel B, ond dyna sydd wedi dod. [Sicrhau] eu bod nhw'n onest gyda'u hunain, ac yn dweud: 'Oce, falle bydd yn ychydig bach o *struggle* yn lefel A'. Dyna fydden i'n ei wneud, ei roi o allan iddyn nhw bwyso a mesur, beth rydym ni'n ei alw'n Saesneg yn *pros and cons* - beth sydd dros ac yn erbyn gwneud y pwnc. Ac wedyn, [sicrhau] bod yr unigolyn yn dod i benderfyniad wedi'i seilio ar dderbyn gwybodaeth gadarn gennym ni, sy'n ddiuedd, ond hefyd oddi wrth yr athrawon pwnc, ac o bosibl - os ydyn nhw eisiau - trafod gyda'r colegau. [Sicrhau] eu bod nhw'n ymwybodol o beth yw cynnwys y cwrs ar gyfer y cam nesaf, wrth iddyn nhw'n symud ymlaen i gwrs lefel 3 neu Lefel A yn y colegau.

Cyf: A dyna eich pregeth chi ym mhob pennod o 'Pa Opsiwn i Ti?' ynte? Gweithiwch mas beth yw'r opsiynau... ac efallai ar ôl heddiw, wrth gwrs, bydd rhywfaint mwy o opsiynau ar agor i ambell un sydd wedi cael canlyniadau, efallai, fymryn yn well nag oedden nhw wedi'i ofni... ond [iddyn nhw] feddwl trwy'r amser 'ble mae hyn yn arwain?' a 'beth yw ei ddiben yn y pen draw?' - nid jyst gradd ar ddarn o bapur, felly.

Aled: Yn hollol, [sicrhau] bod hyn yn ffitio mewn gyda'r cynllun hirdymor, fel ti'n ddweud. [Yn y] tymor byr, y cam nesaf fydd gwneud Lefel A, ond mae angen sicrhau bod.. ydyn nhw'n gwybod, os ydyn nhw'n edrych ymlaen at fynd i'r brifysgol, ydyn nhw... mae'n bwysig eu bod nhw yn dewis y pynciau a fydd yn [eu harwain] at y pwnc y maen nhw am ei astudio, eu bod nhw'n edrych ar wefannau'r prifysgolion, i weld: 'Reit, os dw i eisiau gwneud y pwnc yma, beth yw'r gofyniadau? Pa radd? Pa lefel ddylen i fod? A oes angen i mi gael mathemateg neu ddim? A oes angen i mi gael gwyddor arbennig i symud ymlaen? [Sicrhau] eu bod nhw'n ymwybodol o ba lefel a pha bethau mae'r prifysgolion yn gofyn amdanynt o ran lefel mynediad, ar ôl gorffen cwrs Lefel A neu ar ôl gorffen cwrs Lefel 3 mewn prifysgol.

Cyf: Ac os oes rhywun wedi gwneud yn fwy siomedig mewn un pwnc [ac yn] meddwl y bydden nhw wedi medru gwneud yn well mewn arholiad - ac mae mathemateg wedi codi mewn sawl pwnc heddiw: 'O, dw i jest wedi methu cael y C 'na mewn mathemateg' - beth yw'r opsiynau wedyn o ran mynd ati i drio codi'r radd yna, os ydych chi'n teimlo y gallech chi wneud un cam bach yn well, beth yw'r drefn, Aled?

Aled: Mi fedrwch chi ail-sefyll ym mis Tachwedd, felly mae cyfle i ail-sefyll. Mae nifer o'r colegau... fe wnân nhw eich derbyn chi os ydych chi wedi cael D, er enghraifft, ac fe gewch chi ail-sefyll ochr-yn-ochr gyda'r cwrs yr ydych chi'n ei wneud. Ond y cyngor unwaith eto yw gwirio gyda'r colegau - os ydych chi ddim wedi cael y C yna, a'ch bod wedi cael D, eu bod nhw'n fodlon i chi ail-eistedd.

Mae'r rhan fwyaf o'r colegau... mae'r opsiwn yna ar gael. Hynny yw, os ydych chi'n aros i wneud Lefel A, mi fyddwch chi'n gallu ei wneud trwy'r ysgol ym mis Tachwedd. Mi fydd yna gyfleoedd, dwi'n sicr, gyda nifer o ysgolion, eich bod chi'n gallu mynd, a chael ychydig o help gydag adolygu a gwersi arbennig ar gyfer hynny. Felly, eto, dim ond trafod gyda'r ysgol, gyda'r coleg, i wneud yn sicr fod cyfle i chi ail-eistedd, boed hynny'n maths... maths yw'r un amlwg, ac mae Saesneg yn un arall, oherwydd mae gradd C mewn maths a Saesneg yn cael ei weld yn hanfodol ar gyfer unrhyw fath o ffordd ymlaen gogyfer prifysgol, gogyfer swyddi, gogyfer prentisiaethau, dyna beth yw'r llinell waelod o safbwynt cymhwyster.

Cyf: A yw dosbarthiadau yn y Chweched Dosbarth yn mynd i fod yn fawr nawr? [A hynny] oherwydd rhyw awgrym... wel, chi'n gwybod, bydd [mwy] wedi pasio'r trothwy eleni nag yn y gorffennol, mi fydd yna awydd, efallai, i'w darbwylllo nhw i roi cynnig ar y Chweched Dosbarth, ac ambell un yn dweud: 'Dw i'n meddwl falle bydd fy nosbarthiadau i yn fawr iawn ar ôl y canlyniadau yma heddiw.' Mae hynny'n bosibilrwydd mae'n debyg, on'd yw hi?

Aled: O, digon posibl y bydd na fwy yn mynd i ddod yn ôl i wneud pynciau yn y Chweched - pynciau Lefel A neu beth bynnag. Hynny yw, yn draddodiadol yn yr ysgolion mae'r gwyddorau yn boblogaidd, [yn ogystal â] Cymraeg a Saesneg. Ond efallai bydd rhai o'r pynciau eraill sy'n cael eu cynnwys... efallai bydd 'na fwy yn y dosbarthiadau yna yn awr, ond o bosibl mi fydd rhai o'r dosbarthiadau yn yr ysgolion yma yn eithaf mawr. Ond wedyn, pan ydych chi'n mynd i goleg... mae'r dosbarthiadau mewn colegau yn mynd i fod lot, lot mwy o safbwynt maint nag beth efallai byddai ysgol. Efallai bod hynny'n rhywbeth y gall disgybl ei drafod gyda'r pennaeth Chweched neu'r Athro Pwnc Chweched, dim ond i ffeindio mas os

oes yna lot yn dod yn ôl i wneud, a faint ohonyn nhw. Efallai y bydd hynny'n rhan o'r broses penderfynu, a ydyn nhw am fod yn rhan o ddsbarth mawr, mawr, neu a fyddai'n well ganddyn nhw gael dosbarth llai? Lle, efallai, bydd cyfle i gael mwy o [amser] gyda'r athro yn y pwnc yna, [o gymharu â] pwnc pan fo 30, 40, 50 yn astudio'r pwnc.

Cyf: Felly mae gwneud eich ymchwil, a gofyn pob math o gwestiynau... nawr yw'r amser i wneud mae'n debyg, ynte?

Aled: O yn bendant, nawr yw'r amser. Hynny yw, mae nifer wedi gwneud hyn yn barod, i fod yn deg... mi fydd nifer [gyda'r] cam nesaf... [cyn belled eu bod] nhw'n bwrw'r graddau, maen nhw'n gwybod beth maen nhw'n ei wneud, oherwydd gyda'r rhan fwyaf o ysgolion mae'r drafodaeth yma wedi bod yn digwydd, hyd yn oed yn ystod yr amser cloi. Mi fydd ganddyn nhw ryw fath o syniad pwy sydd am ddod yn ôl i'r Chweched, a pha bynciau maen nhw am eu gwneud. Felly, mi ddylai'r rhan fwyaf o ddisgyblion fod [wedi gwneud hynny].

Ond efallai i'r rhai hynny, fel ro'n i'n sôn yn gynharach, sydd jyst wedi cael ychydig bach mwy nag oedden nhw'n ei ddisgwyl o ran gradd, mae'n bwysig nawr eu bod nhw'n edrych ac yn sicrhau bod eu penderfyniad wedi'i seilio ar wybodaeth gadarn, fel ro'n i'n sôn.

Cyf: Ac mae hyn yn teimlo fel ein bod ni'n cael gwerth ein harian allan ohonoch chi Aled, ond mi wnawn ni ofyn i chi, nid yn unig am flwyddyn 11 a 13, ond am ddisgyblion Blwyddyn 10 a 12 hefyd. Un pwynt diddorol a wnaed gan rywun a oedd wedi cael ei TGAU heddiw, ac a oedd wedi gwneud yn ardderchog, ac meddai hi: 'Wel dw i'n teimlo dros blant Blwyddyn 10, achos ymhen blwyddyn, os bydd y drefn yn ôl ac y bydd yna arholiadau ac yn y blaen, rydym ni'n mynd i weld canlyniadau yn disgyn.' Fe fydden nhw wedi gweld pobl eleni yn gwneud yn well na'r disgwyl, efallai, a'r flwyddyn nesaf falle bydd 'na rai yn teimlo eu bod nhw'n gwneud yn waeth na'r disgwyl. Hynny yw, all pawb ddim poeni am bob dim, ac mae'n debyg y bydd effaith Covid 19 a'r dylanwad mae hynny wedi'i gael ar y drefn eleni i'w deimlo, i'w deimlo am sbel eto i ddod. A oes gennych chi gyngor i'r disgyblion hynny ym Mlwyddyn 10 - ac efallai fy mod i'n gwisgo het 'mam' yn fan hyn hefyd - a Blwyddyn 12, sydd yn mynd yn ôl i'r ysgol, sydd wedi gweld hyn oll, ac wedi gweld hyn yn cael ei drafod ar y cyfryngau cymdeithasol ac ar y newyddion, ac ymhlith eu ffrindiau, ond sy'n dechrau blwyddyn academiaidd newydd a fydd, neu a ddylai fod, yn gorffen gydag arholiadau. Beth yw'r cyngor iddyn nhw?

Aled: Wel, bydden i'n dweud, mae'r ddwy flynedd yna... maen nhw yn awr... dros y flwyddyn ddiwethaf maen nhw wedi bod yn dysgu ar lein, maen nhw wedi bod yn cael eu gwaith ar-lein, ac mae'r athrawon yn gosod y gwaith ar -lein. Felly, maen nhw wedi cael blwyddyn o hyn yn barod. 'Dy ni ddim yn gwybod beth sy'n mynd i ddigwydd o safbwynt Covid. Dw i'n gwybod ar hyn o bryd fod y llywodraeth eisiau plant yn ôl yn yr ysgolion, ond 'dy ni ddim yn siŵr. Ond o leiaf bod Blwyddyn 10 a Blwyddyn 12 eleni wedi dod i arfer gyda'r steil yma o weithio, sef gwneud y gwaith ar-lein trwy Google Classrooms a thrwy Hwb, y pethau yma. Maen nhw wedi arfer gyda hynny, felly pwy a wŷr beth fydd yn digwydd, falle y bydd mwy, y flwyddyn yma, o [ddysgu] wyneb-yn-wyneb, falle bydd angen iddyn nhw fod yn barod i ddelio gyda'r ddau fath o ddysg - y wyneb-yn-wyneb a'r dysgu digidol sydd wedi bod yn digwydd. Felly, mae hynny'n rhywbeth i'w ystyried, ond bydden i'n dweud ei bod hi'n amlwg fod pobl yn mynd i bryderu, hynny yw, does dim ateb i'w gael ar hyn o bryd, achos 'dy ni ddim yn gwybod.

Ar ddiwedd y dydd, mae'r dysgu digidol wedi dangos, yn yr ysgolion, ei fod yn ffordd o ddysgu. Oce, dyw e ddim i bawb, a dyna beth y mae angen i ambell un ei feddwl, sef 'a yw'r dysgu digidol yma yn iawn i mi?' Efallai yn y dyfodol y gwnaiff hynny effeithio ar y

penderfyniad o ran beth y maen nhw eisiau ei wneud wrth symud ymlaen. Mae mwy a mwy, efallai, eisiau mynd lawr llwybr mwy ymarferol, y cyfleoedd hynny - y rhai sydd eisiau mynd i wneud pethau fel [bod yn] fecanydd ceir, gwallt a harddwch, y teip yna o bethau. Mi fydd y llwybr yna yn gofyn am bethau mwy ymarferol, ond eto 'dy ni ddim yn sicr sut mae hynny'n mynd i ddigwydd, 'dy ni dal ddim yn siŵr beth sy'n mynd i ddigwydd gyda'r rheina yn y coleg y flwyddyn nesaf, o safbwynt cael y cyfle i weithio ar wallt pobl, [cyrsiau] mecanydd ceir, adeiladu, y llwybrau hynny lle mae pobl yn gorfod dysgu mewn grwpiau, yn dysgu'n ymarferol. Dyna un peth sy'n mynd i fod yn ddiddorol i'w weld efallai - sut y bydden nhw'n delio gyda hynny yn ystod y flwyddyn nesaf.

Onid i'r rhai sy'n fwy academiaidd, bydden i'n dweud: nawr eu bod nhw wedi cael blwyddyn o ddysgu'n ddigidol, o bosibl bydd mwy o'r cynnwys y flwyddyn nesaf, pwy a wŷr, yn dal i gael i wneud trwy'r llwybr hynny.

Cyf: Ond i'r criw yma sydd wedi cael eu canlyniadau TGAU heddiw - gan gofio mai teitl y podlediad yw 'Pa Opsiwn i Ti?' - rydym ni wedi trafod mynd yn ôl i'r ysgol, i'r coleg, BTEC, ac yn y blaen, ond pa lwybrau sy'n agored iddyn nhw yn awr, ac yno iddyn nhw eu hystyried?

Aled: Wel, mae 'na ychydig o lwybrau y gallent edrych arnynt, os ydyn nhw am adael yr ysgol, a ddim mynd i'r coleg. Mi allent edrych ar brentisiaethau, ond, yn amlwg, gyda phrentisiaethau ar hyn o bryd, mae angen edrych ar y sector - beth sy'n digwydd? Hefyd, bydd angen iddyn nhw sicrhau graddau TGAU, fel ro'n i'n sôn - maths a Saesneg - er mwyn gwneud hynny. Felly, mae prentisiaethau'n mynd i fod yn un opsiwn. Unwaith eto, maen nhw'n mynd i fod yn edrych ar y sgiliau, y sgiliau trosglwyddadwy yma.

Mae'n bwysig bod pobl yn gwybod, gyda phrentisiaethau, taw'r cyflogwr sy'n penderfynu pwy maen nhw'n ei ddewis. Ar wefan Gyrfa Cymru mae gennym ni restr o brentisiaethau sy'n cael ei adnewyddu bob diwrnod - ble maen nhw, pwy sy'n gofyn amdanyn nhw, beth yw'r gofynion. Felly, i unrhyw un sy'n meddwl mynd am brentisiaeth, mae'n bwysig eu bod nhw'n dod i siarad gyda ni yn Gyrfa Cymru yn gyntaf. Mae gennym ni'r tîm Gymru'n Gwithio/Working Wales hefyd, a allai helpu gyda hynny.

I'r rhai a wnaeth ddim gwneud yn dda o gwbl gyda'u harholiadau, efallai gallent edrych ar hyfforddeiaeth. Mae'r rheini yn addas i bobl o gwmpas 16-18 oed. Maen nhw yn helpu i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen ar y byd gwaith, ac mae yna dri lefel i gael. Gallwch chi fynd mewn i wneud hyfforddeiaeth hyd yn oed heb fawr o gymwysterau, ac efallai mynd i mewn ar lefel ymgysylltu - sef *engagement* yn Saesneg - hynny yw, os ydych chi dal ddim yn siŵr pa lwybr y'ch chi eisiau ei wneud yn y dyfodol, mae cyfle i chi fynd at ddarparwr hyfforddiant a chael blas ar ychydig o wahanol fathau o waith. Gydag ymgysylltu fel arfer mae yna leoliadau gwaith, mae prosiectau, ac wedyn hyfforddiant. Unwaith eto, gyda'r Covid, gawn ni weld beth fydd yn digwydd, ond rydych chi'n cael lwfans o £30 yr wythnos os y'ch chi'n mynd ar lefel ymgysylltu. Felly mae hynny, efallai, [yn opsiwn] i'r bobl sydd ddim cweit yn gwybod beth maen nhw moyn ei wneud fel cam nesaf. Y ffordd i fynd am rheini yw siarad â Gyrfa Cymru, ac mi fyddwn ni wedyn yn medru eich rhoi chi mewn cysylltiad â darparwr hyfforddiant.

Mae [hyfforddeiaeth] Lefel 1 ar gael os oes gennych chi syniad mwy penodol ynglŷn â'r ffordd yr ydych chi moyn mynd. Er enghraifft, os ydych chi'n gwybod [eich bod] eisiau bod yn saer, eisiau trin gwallt', neu weithio yn y diwydiant harddwch', mi fedrwch chi fynd at ddarparwr hyfforddi ac astudio ar Lefel 1. Mi gewch chi fwy o brofiad yn y ganolfan hyfforddi, dysgu'r sgiliau, a meithrin beth sydd ei angen arnoch chi i'w wneud ar y Lefel 1.

Os ydych chi'n mynd lefel yn uwch, Lefel 2, rydych chi'n cael £50 yr wythnos o lwfans am wneud hynny... ond mae'n bwysig... hynny yw... rhaid i chi fynychu yn llawn-amser, a bydd eich costau teithio chi'n cael eu talu.

Felly mae hyfforddeiaeth yn un llwybr y gall pobl edrych arno. Mae Twf Swyddi Cymru [hefyd], mae hwnnw yn rhywbeth sydd ar gael os ydych chi'n gymwys. Os ydych chi rhwng 16 a 24 oed ac yn byw yng Nghymru, a ddim mewn gwaith llawn-amser, gallwch hi ymgeisio am swydd. Mae'r swydd yma fel arfer yn swydd chwe mis. Rydych chi'n cael eich talu, ac mae lot o'r cyfleoedd trwy Twf Swyddi Cymru yn gallu troi mewn i swyddi llawn amser. Unwaith eto, mae'n rhoi profiad i chi yn y gweithle, rydych chi'n dysgu sgiliau, rydych chi'n cael y profiad.

Un o'r prif bethau i'w ddweud am Twf Swyddi Cymru yw bod cyflogwyr yn sôn: 'Mae pobl yn ymchwilio, yn dod i ofyn am swyddi, a does dim profiad gyda nhw.' Ac mae pobl ifanc yn dweud: 'Wel, sut allwn ni gael y profiad os nad yw'r swyddi yno?' Dyna beth mae Twf Swyddi Cymru'n gallu ei wneud i helpu pobl rhwng 16-24 oed i gael y 6 mis yna o brofiad mewn gweithle. Maen nhw'n cael eu talu yn ystod y cyfnod yna hefyd. Felly mae Twf Swyddi Cymru yn rhywbeth fedrwch chi edrych arno.

Mae cael swydd neu hunangyflogaeth, mae'r rheini yn opsiynau hefyd, ond bydden i'n dweud: os oes rhywun ddim yn sicr ynglŷn â'r cam nesaf, dewch i siarad gyda ni yn Gyrfa Cymru. Mae gennym ni ddigon o gyngor sydd yn hollol ddiudedd, medrwn ni drafod eich syniadau chi, ac edrych ar eich cryfderau chi. Gallwch chi wneud hynny trwy edrych ar ein gwefan ni, gyrfacymru.llyw.cymru, ac mae gennym ni linell ffôn sydd ar agor hefyd, felly os ydych chi eisiau mwy o wybodaeth gallwch chi ein ffonio ni ar 0800 028 4844, ac mi fydd yna bobl yno. Os ydych chi moyn sgwrsio yn y Gymraeg, rydym ni'n hollol ddwyieithog, felly gallwch chi sgwrsio gyda rhywun a fydd yn gallu eich trin chi fel unigolyn. Dyna ein cryfder ni fel cwmni, o ran pawb yr ydym ni'n delio gyda nhw, rydym ni'n delio gyda nhw fel unigolion. Ac wedyn, edrychwch ar ein cyfryngau cymdeithasol ni - Twitter, Facebook - mae gennym ni sianel ar YouTube hefyd, sydd â lot o wybodaeth, lot o ffilmiau bach ynglŷn â'r llwybrau i mewn i wahanol sectorau.

Ond y peth pwysig, ar hyn o bryd, yw y dylai pawb fod yn sicr, pa beth bynnag y maen nhw'n mynd i'w wneud fel y cam nesaf, fod y cam nesaf yna wedi'i seilio ar wybodaeth gadarn, a bod y penderfyniad yna wedi cael ei wneud ar ôl ystyried popeth.

Cyf: Diolch o galon i Aled Roberts, a llongyfarchiadau cynnes iawn unwaith eto i Twm. A thra bod sawl opsiwn ar gael i Twm gyda'i ganlyniadau, cofiwch fod cyngor ar gael i bawb sy'n dal i feddwl beth yw'r dewis gorau iddyn nhw. Y rhif ffôn yw 0800 028 048 44, fe gewch chi gyngor cwbl ddwyieithog yno, neu ewch i wefan Gyrfa Cymru, gyrfacymru.llyw.cymru, neu chwiliwch amdany'n nhw ar y cyfryngau cymdeithasol, Peidiwch â bod yn swil o holi am gyngor.

Diolch am wrando ar 'Pa Opsiwn i Ti?', a diolch am eich cwmni. Ar ôl anadl ddofn, a pheth cyfle i ymlacio gobeithio, hei lwc i bawb fydd yn ôl yn ei chanol hi pan ddaw mis Medi.